

2019 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

HADAU, CYMRU

**Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.)
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017 i alluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi marchnata planhigion ffrwythau a deunyddiau lluosogi sy'n dod o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd o dan amgylchiadau penodol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 i sicrhau bod y diwygiad a wnaed gan rheoliad 2 yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2019 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

HADAU, CYMRU

**Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.)
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

Gofynion sifftio wedi eu bodloni ***

Gwnaed ***

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* ***

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

- (a) mewn perthynas â Rhan 1, y pwerau a grybwyllir ym mharagraffau (b) ac (c);
- (b) mewn perthynas â Rhan 2, adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1);
- (c) mewn perthynas â Rhan 3, paragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(2).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin(3).

Mae gofynion paragraff 4 o Atodlen 2 (sy'n ymwneud ag ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol) a

-
- (1) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7). Mae wedi ei diddymu yn rhagolygol gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) o'r diwrnod ymadael (gweler y diffiniad o "exit day" yn adran 20 o'r Ddeddf honno).
 - (2) 2018 p. 16.
 - (3) O.S. 2010/2690.

pharagraff 4(2) o Atodlen 7 (sy'n ymwneud â gweithdrefn briodol y Cynulliad ar gyfer y Rheoliadau hyn) i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wedi eu bodloni.

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym fel a ganlyn—

- (a) o ran y Rhan hon a Rhan 2, 21 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y gosodir y Rheoliadau hyn;
- (b) o ran Rhan 3, yn union cyn y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

RHAN 2

Marchnata hadau a deunyddiau lluosogi
planhigion: diwygio deddfwriaeth ddomestig

Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017

2. Yn Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(1), yn rheoliad 5, yn lle paragraffau (3) a (4) rhodder—

“(3) Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi marchnata deunyddiau planhigion o unrhyw wlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd os ydynt wedi eu bodloni bod y deunyddiau planhigion wedi eu cynhyrchu o dan amodau sy'n cyfateb i'r gofynion yn y Rheoliadau hyn ar gyfer deunyddiau planhigion.”

(1) O.S. 2017/691 (Cy. 163), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

RHAN 3

Marchnata hadau a deunyddiau lluosogi
planhigion: diwygio deddfwriaeth ddomestig o
ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r
Undeb Ewropeaidd

Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

3.—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Hadau a
Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2019(1) wedi eu diwygio fel a
ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(4), yn lle'r geiriau cyn y testun a
fewnsoedir, rhodder—

“Yn rheoliad 5—

- (a) ym mharagraff (3), yn lle “Undeb
Ewropeaidd” rhodder “Deyrnas
Unedig”;
- (b) ar y diwedd mewnosoder—”.

Enw

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(1) O.S. 2019/368 (Cy. 90).